# Cysylltu Cymunedau: Mynd i’r Afael ag Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol

# Ymateb i'r ymgynghoriad

Dyddiad cau: 15 Ionawr 2019

**Ionawr 2019**

4ydd Llawr, Tŷ Trafalgar | 5 Plas Fitzalan | Caerdydd | CF24 0ED

Ffôn: 03000 231 011 | Ffacs: 03000 231060

www.citizensadvice.org.uk

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Liz Williams, Cynorthwyydd Ymchwil Polisi**,

**liz.williams@citizensadvice.org.uk**

## Cyngor ar Bopeth Cymru

Elusen a sefydlwyd ym 1939 yw Cyngor ar Bopeth. Ers hynny, rydym wedi rhoi cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth ar bob math o faterion bob dydd i unrhyw un sydd ei angen, o ddyled, arian a budd-daliadau lles i dai, cyflogaeth a pherthynas ag eraill.

Yng Nghymru mae gennym rwydwaith o 19 Cyngor ar Bopeth lleol [1] - pob un yn elusen unigol, gyda staff o bron i 800 o wirfoddolwyr ymroddedig a staff cyflogedig. Rydym yn dileu'r rhwystrau i gyngor trwy fynd i leoedd lle mae pobl ein hangen fwyaf, gan roi cyngor o fwy na 375 o leoliadau cymunedol yng Nghymru, yn ogystal â chynnig gwasanaethau dros y ffôn ac ar-lein.

Bob blwyddyn mae miliynau o bobl yn troi atom ni ar draws Cymru a Lloegr. Mae hyn yn rhoi darlun unigryw i ni o'u hanghenion a'u pryderon. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ymgyrchu ar faterion mawr, yn lleol ac yn genedlaethol. Felly, mewn llu o ffyrdd, rydym yn helpu pawb – nid y rhai rydym yn eu cefnogi'n uniongyrchol yn unig.

[1] Mae Cyngor ar Bopeth yn newid. Rydym yn moderneiddio ein gwasanaethau i ymateb i anghenion sy'n newid ac i gyrraedd mwy o bobl. Fel rhan o'r broses hon, bydd enw newydd ar gyfer y gwasanaeth – Cyngor ar Bopeth lleol yw'r enw ar 'ganolfan (*bureau*)' bellach.

Rydym wedi ymateb i'r cwestiynau lle mae gennym y dystiolaeth fwyaf arwyddocaol a pherthnasol.

**Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno â'n diffiniadau o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol? Os nad ydych, beth fyddech chi'n eu cynnig yn eu lle a pham?**

Ydyn.
Mae unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn rhannu llawer o ffactorau sy'n gysylltiedig â chynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl yn profi'r naill a'r llall, megis dirywiad iechyd, a namau synhwyraidd a symudedd. Y llynedd, roedd 48% o'n cleientiaid yn anabl neu roedd ganddynt gyflwr iechyd hirdymor. O'r rheini, roedd gan 25% broblem iechyd meddwl. Yn yr un modd, mae 26% o'n cleientiaid yn rhy sâl i weithio a 13% yn ddi-waith ac yn chwilio am waith cyflogedig. Cydnabyddir gan lawer y gall bod heb waith fod yn gatalydd ar gyfer teimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Mae cleientiaid sy'n agored i niwed yn cysylltu â ni eisoes ac yn gofyn am ein cymorth gyda'u problemau ymarferol. Mae pobl anabl yn talu £550 y mis ar gyfartaledd ar gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'u hanabledd.[2] Felly, gall gwneud y gorau o fudd-daliadau sicrhau bod pobl ag anableddau neu gyflwr gydol oes yn gallu fforddio gadael eu cartref a chymryd rhan mewn gweithgaredd. Y problemau rydym yn helpu ein cleientiaid ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor fwyaf gyda nhw yw'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a'r Budd-dal Tai. Mae gan ein cleientiaid bedair problem ar gyfartaledd, ac mae gan gleientiaid â chyflwr iechyd meddwl 6 o broblemau. Mae hyn yn dangos bod eu hanghenion yn gymhleth ac nad ydynt yn glir a syml, a bod cleientiaid â chyflyrau iechyd hirdymor megis cyflyrau iechyd meddwl yn dod atom gyda nifer o broblemau ymarferol. Mae'r anghenion hyn yn fwy taer a chymhleth hefyd.

**Cwestiwn 2: Sut gallwn ni helpu pobl i ddeall yr hyn sy'n sbarduno unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a datblygu gwydnwch emosiynol a seicolegol i'w paratoi i gymryd camau i osgoi neu leihau'r teimladau hyn?**

---

[2] https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/SCW-NPAR-CYM.PDF, t.38.

Nid problem sy'n bodoli ar ei phen ei hun yw unigrwydd. Mewn gwirionedd mae'n symptom o nifer o broblemau megis digwyddiadau bywyd a all ysgogi hyder isel, incwm isel/tlodi, opsiynau cludiant cyfyngedig, a diffyg rheolaeth neu allu gan unigolion i wneud dewisiadau mewn bywyd. Mae'n hollbwysig ein bod yn ceisio adeiladu cadernid mewn cymunedau – mae datrys pryderon ariannol trwy wneud y gorau o fudd-daliadau neu reoli dyledion yn allweddol a gall mynd i'r afael â phroblemau ymarferol fel problemau gyda thai neu gyflogaeth atal a gwella teimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol hefyd.

Mae 4 o bob 5 o gleientiaid Cyngor ar Bopeth yn profi sioc neu ddigwyddiad bywyd cyn dod atom ni. Mae hyn yn golygu bod llawer o'n cleientiaid yn agored i niwed pan fyddant yn gofyn am ein cyngor. Gall cyngor leihau dyledion trwy gadw pobl mewn cyflogaeth a helpu pobl i fanteisio ar eu hawliau lles. Gall cyngor leihau'r galw ar wasanaethau statudol a chyhoeddus hefyd.[3]

Mae adroddiad gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn disgrifio model cadarnhaol o gymuned gref fel un sy'n canolbwyntio ar sut y gall y gymuned addasu a ffynnu trwy newid, yn hytrach na goroesi'n unig. Y llynedd cyflwynodd Cyngor ar Bopeth Cymru brosiect o'r enw Siarad am Arian fel rhan o Gronfa What Works gyda'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol. Bu'r prosiect yn edrych ar sut mae digwyddiadau bywyd a chyfnodau o bontio'n effeithio ar anghenion pobl o ran arweiniad ariannol. Gall digwyddiadau bywyd fod yn sbardun sy'n arwain at lai o allu ariannol ac o ganlyniad, ystyriodd y prosiect a fyddai ymyriadau da yn effeithiol o ran gwella eu gallu ariannol a'u lles cyffredinol. Roedd y prosiect yn cynnwys darparu arweiniad un-i-un i unigolion sy'n wynebu newid yn eu hiechyd, eu cyflogaeth neu berthynas yn chwalu. Cyflwynwyd hyn mewn cymunedau lleol ledled Cymru (y tu allan i'r gweithle), gan gyrraedd mwy na 1,800 o gleientiaid rhwng mis Mai a Rhagfyr 2017.

Mae meithrin gwydnwch mewn unigolion a chymunedau yn rhan allweddol o'n gwasanaeth fel Cyngor ar Bopeth – rydym yn helpu pobl i ddod o hyd i ffordd ymlaen, i deimlo'n hyderus ynghylch gwneud penderfyniadau da. Nodwyd diffyg hyder yn ystod prosiect Money Advice fel rhwystr amlwg i bobl sy'n arddangos gallu ariannol da. Mewn gwirionedd, roedd gan bron i hanner y cleientiaid y gwnaethom eu helpu yn ystod y prosiect ddiffyg hyder i weithredu ar faterion ariannol. Yn yr un modd, roedd gan 3 o bob 5 cleient â phroblemau iechyd meddwl ddiffyg hyder. Mae gwella sgiliau ariannol yn effeithio ar amgylchiadau ehangach cleientiaid a'u gallu i reoli, gan eu gwneud yn fwy gwydn mewn meysydd eraill yn eu bywydau yn y pen draw. Dywedodd 3 o bob 4 o'r

---

3 https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Public/Impact/Citizens%20Advice%20impact%20report%202017%20final%20web.pdf, p.8.

cleientiaid a dderbyniodd y gwasanaeth iddo newid eu gallu ariannol mewn ffordd gadarnhaol, ac roedd 55% yn teimlo'n fwy hyderus i weithredu. Hefyd gwelodd Cyngor ar Bopeth gynnydd ystadegol arwyddocaol yn lles cyfranogwyr Siarad am Arian yn eu barn nhw o gymharu â grŵp cymhariaeth. Gan ddefnyddio mesur Boddhad Bywyd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cynyddodd sgôr lles cyfartalog cyfranogwyr Siarad am Arian o 4.6 i 5.9 (ar raddfa o 0-10 lle mai 0 yw'r sgôr lles isaf a 10 yw'r sgôr lles uchaf).

Fe wnaeth y prosiect ein galluogi i weld sut y gall digwyddiadau bywyd weithredu fel sbardunau, a gallwn rannu'r ddealltwriaeth hon â Llywodraeth Cymru. Fe wnaethom ni gynnal gwerthusiad lefel uchel o'r prosiect (NESTA Lefel 3) hefyd, a ddangosodd, er y gall cyfathrebu aml-sianel fod yn effeithiol, fod yr opsiwn o roi cyngor wyneb yn bwysig iawn hefyd, ac felly hefyd gynghorwyr yn dangos empathi a dealltwriaeth.

**Y blynyddoedd cynnar**

**Cwestiwn 3: Sut gall Llywodraeth Cymru feithrin yr amgylchedd priodol a chreu'r amodau iawn i greu cymunedau cydnerth?**

Gall ein cyngor wneud pobl yn fwy gwydn. Dywedodd 3 o bob 5 o bobl bod ganddynt ddiffyg hyder i gymryd camau i ddatrys eu problemau cyn cael cyngor. Ar ôl derbyn cyngor, roedd 2 o bob 3 yn teimlo'n fwy hyderus i fynd i'r afael â phroblem debyg yn y dyfodol ac roedd 3 o bob 4 yn teimlo'n fwy gwybodus ynglŷn â'u hawliau. Rydym yn ymateb i anghenion pobl ac yn cynyddu eu gallu i ddatrys eu problemau eu hunain yn y dyfodol.[4]

Gall problemau teulu gyda thai, dyledion, budd-daliadau a chyflogaeth arwain at incwm isel, ansicrwydd ac iechyd meddwl a chorfforol gwael. Yn ei dro gall hyn effeithio ar wydnwch cyffredinol y teulu, a chael effaith wedyn ar y plant, trwy fod yn rhwystrau posib i'w dysgu a'u datblygiad cymdeithasol.

Mae Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf yn cynnal prosiect o'r enw Teuluoedd Cydnerth sy'n cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol. Mae teuluoedd yn cael eu hadnabod drwy'r Hwb Aml-asiantaeth ar gyfer Diogelu (MASH), ac fel arfer cânt eu hatgyfeirio yn sgil materion sy'n gysylltiedig â magu plant. Pan gaiff teulu ei atgyfeirio at Gyngor ar Bopeth, mae gweithiwr achos yn ymweld â'r cleient a'i deulu ac yn cynnal gwerthusiad ariannol, a all arwain at wneud y gorau o fudd-daliadau. Nod y prosiect yw gwneud teuluoedd yn fwy cydnerth, ac yn y tymor hir i atal plant rhag mynd i mewn i'r

4 https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Public/Impact/Citizens%20Advice%20impact%20report%202017%20final%20web.pdf, t.5.

system ofal. Er enghraifft, trwy helpu cleient i gael gwaith, mae'n rhoi mwy o arian iddo i brynu côt, esgidiau, gwisg ysgol a bwyd ar gyfer brecwast i'w blentyn, a fydd yn ei dro yn galluogi'r plentyn fynd i'r ysgol. Os yw'r plentyn yn yr ysgol, gall y rhiant weithio a chael incwm mwy dibynadwy. Yn yr un modd, mae prosiect yr awdurdod lleol yn edrych ar y teulu yn ei gyfanrwydd, felly er y gellir cynnig dosbarthiadau rhianta i'r rhiant, gall fod gan y plentyn broblemau emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol hefyd y bydd y gweithiwr achos yn edrych arnynt. Mae tîm broceriaeth yr awdurdod lleol yn helpu'r teulu gyda phedwar maes gwella, a gall y rhain gynnwys iechyd, dyled ac addysg. Mae'r prosiect yn y swyddfa leol hefyd yn meithrin gwydnwch hefyd trwy helpu pobl i helpu eu hunain, trwy gyrchu'r wefan ac egluro, os oes ganddynt broblem arall gyda budd-dal, er enghraifft, y gallant ddychwelyd i gael cymorth.

**Seilwaith (Tai, Trafnidiaeth a Chynhwysiant Digidol)**

**Cwestiwn 6: Beth arall all y sector tai ei wneud i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol? Sut gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo hyn?**

Mae Arolwg Tai yn dangos bod 12% o drigolion tai cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr yn cael eu heffeithio gan lwydni a lleithder. Gall cyflwr cartref unigolyn gael effaith sylweddol ar ei iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Os yw cartref rhywun mewn cyflwr gwael, efallai y bydd yn llawer llai tebygol o wahodd ffrindiau a theulu i'w gartref oherwydd ei fod yn teimlo cywilydd neu embaras. Gallai hyn gael effeithiau gwaeth hyd yn oed ar unigolion anabl nad yw'n rhwydd iddynt adael eu cartref o reidrwydd, gan olygu eu bod yn cael eu hynysu'n gymdeithasol. Yn yr un modd, os nad yw'r ardal y mae unigolyn yn byw ynddi yn ddiogel, efallai ei fod yn llai tebygol o adael ei gartref.

Y llynedd, fe wnaethom ni helpu 8,994 o bobl gyda 13,807 o broblemau'n ymwneud â thai. O'r rhain, roedd gan 903 o bobl 1,128 o broblemau'n ymwneud â thai awdurdodau lleol ac roedd 969 o ymholiadau'n ymwneud ag eiddo cymdeithasau tai. Problemau gyda thai yn y Sector Rhentu Preifat (PRS) sydd fwyaf cyffredin yn y maes hwn gyda bron i draean o'r holl broblemau yn ymwneud â thai sy'n cael eu rhentu'n breifat (2,833 o bobl, 4,011 o broblemau). Y prif broblemau yn y Sector Rhentu Preifat ymhlith ein cleientiaid oedd atgyweiriadau a chynnal a chadw'r eiddo (587 o broblemau).

Mae'n hollbwysig bod y sector tai yn gwella cyflwr tai cymdeithasol a thai preifat trwy sicrhau bod y cyflwr ffit i bobl fyw'n adlewyrchu'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (**HHSRS**) ac yn gallu cael ei gorfodi gan y tenant. Gellid gwella safon tai hefyd pe bai'r sector tai'n cyhoeddi canllawiau i landlordiaid ar y cyfnodau derbyniol hiraf ar gyfer cwblhau atgyweiriadau. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi landlordiaid i ymdrin â diffyg atgyweirio os ydynt yn dweud na allant ei fforddio. Pan fo cefnogaeth ar gael, dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo hysbysebu'r system fenthyciadau fel bod landlordiaid yn ymwybodol y gallant fanteisio arni.

Yn aml mae problemau ymarferol megis problemau gyda thai wrth wraidd unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Mae tystiolaeth yn dangos y cysylltiad agos hefyd rhwng cartrefi oer ac iechyd corfforol a meddyliol pobl. Er mwyn i gymunedau fod yn gydnerth, rhaid i bobl allu gwresogi eu cartrefi.

Mae cartrefi oer a biliau tanwydd na all pobl eu fforddio yn arwain at broblemau cronnus i bobl sy'n agored i niwed yn y DU, ac mae pobl hŷn, plant ifanc a'r rheiny sydd â chyflwr iechyd anadlol neu gardiofasgwlaidd mewn mwy o berygl. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod o leiaf 30% o farwolaethau ychwanegol y gaeaf yn cael eu hachosi gan gartrefi oer - gellid osgoi hynny pe bai cartrefi'n cael eu hinswleiddio a'u gwresogi'n iawn, a phe bai pobl yn gallu fforddio eu biliau tanwydd.

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ariannu cynlluniau sy'n helpu i liniaru tlodi tanwydd, fel NEST, ond gan sicrhau hefyd eu bod yn cael eu hysbysebu'n effeithiol fel eu bod yn targedu cartrefi anodd eu cyrraedd megis yr henoed a'r rhai sy'n byw ar fudd-daliadau lles.

Enghraifft o ymyrraeth lwyddiannus oedd prosiect ym Merthyr Tydfil, a helpodd 200 o bobl dros gyfnod o 9 mis. Fe wnaeth Cynghorwyr o Gyngor ar Bopeth Merthyr Tydfil helpu pobl yn eu cartrefi eu hunain, gan eu cadw'n gynnes ac iach.

Stori Bernard

Nid oedd gan Bernard ddigon o arian i gwrdd â ffrindiau, ac o ganlyniad roedd yn unig ac yn gaeth i'w gartref, ac yn dibynnu ar fanciau bwyd i fwyta hyd yn oed. Roedd ei gartref yn oer hefyd gan na allai fforddio'r biliau ac roedd ar dariff drutach. Gwnaeth y cynghorwyr wiriad budd-daliadau ar Bernard, a sylweddoli bod ganddo hawl i gael mwy o arian nag yr oedd yn ei dderbyn. Roedd yr arian ychwanegol hwn yn golygu y gallai Bernard gymdeithasu ac fe helpodd ef i wresogi ei gartref hefyd.

Cafwyd cynnydd o 15% yn nifer y problemau ymhlith ein cwsmeriaid oedd yn ymwneud â chyfleustodau a chyfathrebu yn 2017/18 o gymharu â 2016/17 yng Nghymru. Mae prosiect newydd sy'n cael ei gynnal gan Cyngor ar Bopeth, Cynhesu Cymru, yn targedu aelwydydd anodd eu cyrraedd sy’n dlawd o ran tanwydd a’r bobl hynny a allai fod yn agored i afiechyd oherwydd cartrefi oer o ganlyniad i filiau ynni na allant eu fforddio. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyngor wyneb yn wyneb a dros y ffôn ar ynni trwy gyfrwng apwyntiadau ac ymweliadau cartref i helpu gyda phroblemau ymarferol megis dyledion a budd-daliadau a'u hatgyfeirio at gymorth arbenigol. Mae'r prosiect yn helpu cleientiaid i wella eu heffeithlonrwydd ynni hefyd a lleihau eu biliau trwy ddod o hyd i dariff mwy cost effeithiol i gleientiaid. Mae'r prosiect yn helpu pobl i reoli eu dyledion trwy eu helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad i leihau defnydd. Yn ei dro mae hyn yn gwella iechyd a lles teuluoedd cyfan ynghyd â datblygu cydnerthedd cymunedol. Mae'r prosiect yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyngor am broblemau ymarferol megis rheoli dyledion a manteisio i'r eithaf ar fudd-daliadau, sydd yn ei dro’n gallu gwella lles ac atal unigrwydd, ynysigrwydd ac iechyd meddwl gwael. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda'r sector cynghori i hyrwyddo partneriaeth ac atgyfeiriadau rhwng y sector statudol a darparwyr cyngor annibynnol. Bydd atgyfeiriadau cynharach ac amlach yn galluogi i gyngor ataliol gael ei gynnig, yn helpu i ddatblygu cadernid a bydd yn helpu i atal problemau rhag gwaethygu.

Dylai'r Llywodraeth weithio gyda'r sector tai i ddarparu tai teg a diogel. Dylid diddymu’r arfer o droi allan heb fai er mwyn rhoi sefydlogrwydd i bobl a helpu i greu pobl a chymunedau mwy cydnerth. Y llynedd hefyd, fe wnaethom helpu 1,487 o gleientiaid gyda 1,748 o broblemau yn ymwneud â’r bygythiad o ddigartrefedd a digartrefedd gwirioneddol. Mae digartrefedd a bygythiad o ddigartrefedd yn cael effeithiau negyddol ar iechyd a lles corfforol a meddyliol rhywun, ac o ganlyniad yn arwain at unigrwydd cronig ac ynysigrwydd cymdeithasol.

**Cwestiwn 7: Beth arall all Llywodraeth Cymru ei wneud i gynorthwyo gwelliant gwasanaethau trafnidiaeth ledled Cymru?**

Mae trafnidiaeth fforddiadwy, ddiogel a dibynadwy yn hanfodol er mwyn galluogi cymunedau i gael eu cysylltu trwy ganiatáu mynediad i swyddi, y stryd fawr, gwasanaethau cymunedol ehangach a rhoi cyfle i bobl gymdeithasu. Yn ystod 2017-18 roedd gan ein cleientiaid 2,633 o broblemau’n ymwneud â theithio a thrafnidiaeth, ac roedd 196 ohonynt yn gysylltiedig â thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae diweithdra a thlodi’n ffactorau sy’n achosi unigrwydd ac ynysigrwydd. Mae fforddiadwyedd a darparu cludiant cyhoeddus yn allweddol i helpu pobl i mewn i waith ac allan o dlodi. Gan fod traean o boblogaeth Cymru (ONS) yn byw mewn ardaloedd gwledig, mae cysylltiadau trafnidiaeth â chyflogaeth yn allweddol. Mae diffyg mynediad at gludiant fforddiadwy yn rhwystr mawr i ganfod a chynnal cyflogaeth a chael mynediad at wasanaethau. Nid yn unig mae’r unigolyn yn gaeth mewn cylch o unigrwydd, ond ni all gefnogi busnesau a chymunedau lleol oherwydd diffyg cludiant.

Nid cost yw'r unig rwystr, mae hygyrchedd ac a fydd y gwasanaeth yn mynd â nhw i'r lle y maen nhw angen mynd iddo ar yr adeg iawn yn rhwystrau hefyd. I'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol – yn enwedig unigolion â cholled synhwyraidd, iechyd meddwl, anableddau corfforol ac anableddau dysgu – mae teithio o le i le yn mynd yn anoddach fyth. Er enghraifft, cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Papworth ffigurau ar anabledd sy'n dangos bod 29% o bobl anabl o oedran gweithio yn dweud bod diffyg cludiant yn rhwystr allweddol i gyflogaeth. Dywed Leonard Cheshire bod 23% o bobl anabl wedi gorfod gwrthod swydd oherwydd diffyg trafnidiaeth hygyrch.

Mae cost gynyddol trafnidiaeth ac argaeledd ein system drafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod pobl yn teimlo eu bod wedi’u hynysu a’u cau allan, yn methu â chael mynediad at gyfleoedd, o swyddi i ofal iechyd, y mae llawer o bobl yn eu cymryd yn ganiataol.

Gall hyn fod yn broblem arbennig mewn ardaloedd gwledig, lle mae swyddi a gwasanaethau’n fwy gwasgaredig, ond mae’n broblem sy'n wynebu ardaloedd mwy adeiledig hefyd. Mae cyfansoddiad ôl-ddiwydiannol yr economi mewn rhai rhannau o Gymru wedi golygu bod llawer o bobl yn cael eu gorfodi i deithio y tu allan i’w cymunedau i gael gwaith. (Access Denied, 2012 - Sustrans, Cyngor ar Bopeth, Achub y Plant, Age Cymru)

Dylai Llywodraeth Cymru greu llais cryfach i ddefnyddwyr yn y broses o weithredu, cyflenwi a chynllunio polisi ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

**Cwestiwn 8: Sut gallwn ni geisio sicrhau bod gan bobl fynediad at dechnoleg ddigidol a’r gallu i’w defnyddio yn ddiogel?**

Mae bron i 1 o bob 3 o'n cleientiaid wedi'u heithrio'n ddigidol ac angen cymorth i ddefnyddio gwasanaethau, ffurflenni ac adnoddau ar-lein. Mae llythrennedd digidol yn broblem drawsbynciol sy'n effeithio ar yr holl wasanaethau y mae trigolion yn dod i

gysylltiad â hwy ac mae angen i gymorth llythrennedd digidol fod ar gael trwy barhau â phrosiectau megis Cymunedau Digidol Cymru.

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o’r ffaith nad pobl 65+ yn unig sy’n cael eu heffeithio gan allgau digidol er mwyn mynd i'r afael â'r stigma sy’n gysylltiedig â hyn. Yn ei dro gallai hyn annog mwy o bobl i ofyn am gymorth.

Gall grwpiau sydd wedi’u hallgáu’n ddigidol fod yn agored i sgamiau a wynebu gwasanaethau hanfodol yn cymryd mantais ohonynt. Dywedodd cynghorwyr mewn Cyngor ar Bopeth lleol wrthym fod un cleient yn talu dros £100 y mis am ddau gontract ffôn, ar ôl ymrwymo i un newydd heb ganslo’r un diwethaf. Gwnaed hyn i gyd ar-lein, ac ni wnaeth y darparwr egluro hyn wrtho ac nid oedd ganddo ddealltwriaeth dda o'r rhyngrwyd. Eu hymateb oedd nad eu problem nhw oedd gwneud yn siŵr bod rhywun yn deall beth maen nhw'n ymrwymo iddo.

O ganlyniad, yn ogystal â hybu llythrennedd digidol a sicrhau bod y seilwaith cywir yn ei le, dylai fod safon ofynnol sydd ar gael all-lein. Mae cyfathrebu aml-sianel yn bwysig wrth sicrhau na fydd defnyddwyr nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd yn colli’r cyfle i gael bargeinion da a gwybodaeth hanfodol.

**Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**

**Cwestiwn 9: Pa brofiad sydd gennych chi o effaith gwasanaethau cymdeithasol ar fynd i’r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?**

Rhaid cynnwys lliniaru tlodi ac amddifadedd yn y llwybrau sy'n bodoli eisoes, megis y broses cynllunio gofal i sicrhau nad yw amddifadedd materol yn gwthio oedolion bregus tuag at unigrwydd.

Ni ystyrir problemau ariannol ac effaith tlodi yn gyson pan fo'r sector iechyd a llywodraeth leol yn ceisio deall yr hyn sydd ei angen ar ddefnyddiwr y gwasanaeth. Mae Gofal a Chymorth yng Nghymru: adroddiad cenedlaethol asesu’r boblogaeth yn nodi pwysigrwydd gwaith ataliol o ran cyfrannu at wella gofal cymdeithasol a chymorth yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gynnwys cyngor ar arian, cyflogaeth a thai. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion o'r blaen ar gael mynediad at ofal cymdeithasol yng Nghymru a thalu amdano, gan gynnwys mynediad at wybodaeth a chyngor.[5]

[5] Accessing and paying for Social Care in Wales

I bobl â phroblemau iechyd meddwl, rydym yn parhau i alw am i gyngor fod ar gael mewn lleoliadau iechyd i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt lle maen nhw ei angen fwyaf. Gwyddom o'n hymchwil ein hunain gyda chleientiaid bod darparu mynediad i gyngor diduedd am ddim sydd â sicrwydd o ansawdd yn meithrin gwydnwch pobl, yn gwella lles - ac yn lleihau costau i'r pwrs cyhoeddus. Gall cael problemau iechyd meddwl ei gwneud hi'n anodd i bobl reoli problemau ymarferol eraill yn eu bywydau, megis arian, dyled, tai, mewnfudo a chyflogaeth. Gall y problemau hyn waethygu cyflwr iechyd meddwl hefyd. O ganlyniad, mae materion ymarferol yn erydu ymdeimlad pobl o les a rhoi pobl mewn perygl o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Mae ymarferwyr ymarfer iechyd meddwl wedi dweud wrthym eu bod yn treulio mwy a mwy o amser yn helpu cleifion â phroblemau ymarferol yn hytrach na chanolbwyntio ar eu triniaeth. Mae darparu cyngor ymarferol mewn lleoliadau iechyd meddwl o fudd mawr. Mae Cyngor Da, Byw'n Well yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n galluogi i rai o'n cynghorwyr gael eu lleoli mewn lleoliadau iechyd meddwl. Mae hyn yn galluogi'n cynghorwyr i gynorthwyo ymarferwyr iechyd meddwl sy'n ceisio datrys problemau nad ydynt o natur feddygol. Mewn gwirionedd, y llynedd, teimlai 8 o bob 10 o bobl eu bod dan lai o straen, iselder neu bryder ar ôl dod atom i gael cyngor.

**Cwestiwn 10: Beth arall all y sector gofal cymdeithasol ei wneud i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?**

Gweler yr ymateb i Gwestiwn 9.

**Cwestiwn 11: Beth arall allwn ni ei wneud i annog pobl sydd mewn perygl o fod yn unig ac yn ynysig yn gymdeithasol i gymryd rhan mewn grwpiau lleol sy'n hybu gweithgarwch corfforol?**

Ar sail profiad ein cleientiaid mae'n amlwg bod pobl yn llai tebygol o gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd os ydynt yn cael trafferth gyda phroblemau uniongyrchol fel incwm isel, dyled neu broblemau tai. Mae ein hadroddiad effaith yn dangos pwysigrwydd cefnogaeth ac arweiniad wrth wella gallu pobl i ymdopi â'u bywydau bob dydd yn ogystal â gwneud penderfyniadau cadarnhaol. Ar ôl dod atom am gyngor, roedd bron i 3 o bob 5 yn teimlo bod ganddynt berthynas well ag eraill ac roedd 2 o bob 3 yn ei chael hi'n haws ymdopi o ddydd i ddydd.[6]

6 https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Public/Impact/Impact%20of%20local%20Citizens%20Advice%20in%20Wales%202017-18.pdf

Mae'n rhaid ystyried datrys penderfynyddion cymdeithasol iechyd fel llwyfan sy'n sail ar gyfer annog pobl i gymryd rhan. Mae iechyd meddwl, iechyd corfforol ac iechyd ariannol i gyd yn effeithio ar ei gilydd, felly er mwyn annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol, mae angen ystyried iechyd meddwl ac ariannol hefyd.

**Iechyd meddwl**

**Cwestiwn 12: Ym mha ffyrdd eraill all gwasanaethau iechyd chwarae eu rhan i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?**

Dylai Rhagnodi Cymdeithasol gynorthwyo i fynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd. Rydym yn croesawu ffyrdd newydd cydgysylltiedig o fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol sy'n cydnabod cymhlethdod y problemau hyn.

O ran rhagnodi cymdeithasol, rydym yn croesawu'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ond mae ein safbwynt ni'n gadarn bod rhaid i bob cynllun rhagnodi cymdeithasol fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol tai, cyflogaeth ac incwm cyn cyflwyno disgwyliadau i ymgymryd â gweithgareddau cymdeithasol ehangach. Ni fydd anwybyddu tlodi ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn datrys y problemau. A yw'n realistig disgwyl i glaf/defnyddiwr gwasanaeth ymgysylltu'n ystyrlon/ymweld â chanolfan ddydd i gael cinio os na all fforddio'r bws yno na'r cinio?

Cafodd prosiect Siarad am Arian effeithiau cadarnhaol ar sefyllfa ariannol, lles a hyder cleientiaid, a llwyddodd y prosiect i gyrraedd cleientiaid na fyddent wedi gofyn am ein cyngor ariannol o reidrwydd. Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau'n gyson bod cleifion a theuluoedd sydd ag amgylchiadau sy'n newid megis digwyddiad bywyd neu ddiagnosis newydd yn gallu cael cyngor er mwyn iddynt allu parhau'n iach ac yn wydn a pharhau i fod yn annibynnol. Un o nodweddion allweddol gwasanaeth Siarad am Arian oedd datblygu partneriaethau i gefnogi llwybrau atgyfeirio effeithiol ac amserol. Roedd y gwasanaethau wedi'u cydleoli'n aml mewn lleoliadau partner, megis canolfannau gwaith, er mwyn galluogi cleientiaid i gael mynediad hawdd at y gefnogaeth a ddarperir gan y gwasanaeth. Y prif fanteision a welodd partneriaid yn y gwasanaeth oedd ei fod yn cynnig gwasanaeth annibynnol a diduedd arbenigol i'w cleientiaid oedd yn eu galluogi i weld ffordd ymlaen.[7] Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod cyngor ar gael mewn lleoliadau hygyrch, gan ei fod yn golygu y gellir targedu pobl agored i niwed.

---

7
https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Public/Impact/Citizens%20Advice%20(A248e)%20What%20Works%20fund%20-%20Money%20Talks%20evaluation%20report%20-%20final%20v2%20(1)%20(2).pdf, p.49.

**Gwirfoddoli**

**Cwestiwn 13: Beth arall all Llywodraeth Cymru ei wneud i annog pobl i wirfoddoli?**

Mae gwirfoddoli'n gyfraniad allweddol at allu pobl i ddechrau dysgu gydol oes a datblygu sgiliau a fydd yn eu helpu i gamu i mewn i waith a gwaith cyflogedig gwell. Canfu ein hymchwil bod gwirfoddoli'n gallu cadw pobl yn egnïol a brwdfrydig, ac yn gweithio yn erbyn rhai o'r effeithiau negyddol y gall diweithdra eu cael ar iechyd meddwl.

Gall gwirfoddoli wneud unigolion yn fwy gwydn hefyd trwy wella eu hymwybyddiaeth o'u hunain a'u lles. Trwy alluogi unigolion i gael ymdeimlad o bwrpas, gall helpu i roi hyder i bobl trwy ganiatáu iddynt chwarae rhan weithgar yn y gymdeithas.

Mae'n bwysig hefyd fod pobl anabl yn cael digon o gyfle i wirfoddoli er mwyn dileu rhwystrau i gyflogaeth ond hefyd i'w galluogi i chwarae rhan weithredol yn y gymuned i leihau'r tebygrwydd y byddant yn dod yn unig ac wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Mae gwirfoddoli'n cyfrannu at gydlyniant cymunedol trwy ddod ag unigolion yn nes at eu hardal leol ac yn ei dro greu cymunedau cryfach a mwy cynhwysol.

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yna fuddsoddiad i wirfoddolwyr gael eu hyfforddi a'u cefnogi. Mae'n hanfodol hefyd fod grwpiau lleiafrifol ac agored i niwed yn cael eu targedu (Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, LGBTQ+, unigolion ag anableddau corfforol, anableddau synhwyraidd ac anableddau dysgu) er mwyn sicrhau bod pob grŵp yn cael yr un cyfleoedd. Gall ffactorau eraill megis y cludiant sydd ar gael wneud gwirfoddoli'n fwy hygyrch a deniadol.

Mae buddsoddi i ddatblygu gwirfoddol mewn elusennau fel Cyngor ar Bopeth wedi bod o fudd aruthrol i'w wirfoddolwyr yn ogystal â'i gleientiaid. Mae cefnogaeth a hyfforddiant i wirfoddolwyr wedi arwain at wirfoddolwyr yn gwella datblygiad sgiliau a chyflogadwyedd, ac mae wedi gwella sgiliau meddal a gwytnwch, iechyd a lles, ymgysylltu a chydlyniant cymunedol.[8] Mae Cyngor ar Bopeth yn hyfforddi 2,800 o gynghorwyr gwirfoddol newydd bob blwyddyn ar draws Cymru a Lloegr, ynghyd â channoedd lawer o wirfoddolwyr eraill i ymgymryd ag amrywiaeth o rolau eraill. Bob blwyddyn, mae 30% o'r gwirfoddolwyr sy'n ein gadael ni'n gwneud hynny ar gyfer cyflogaeth, addysg bellach neu gyfleoedd hyfforddi eraill.[9] Roedd un gwirfoddolwr

---

[8] https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Migrated_Documents/corporate/value-volunteering-may-14.pdf, p.4.
[9] https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Migrated_Documents/corporate/value-volunteering-may-14.pdf, p.5.

mewn Cyngor ar Bopeth lleol wedi'i hyfforddi fel plymwr ond roedd eisiau newid gyrfa. Dechreuodd wirfoddoli yn y swyddfa leol, ac ar ôl ennill profiad daeth yn gynghorydd tai arbenigol. Dengys hyn fod gwirfoddolwyr mewn swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol yn ennill sgiliau trwy hyfforddiant sydd, yn ei dro, yn caniatáu iddynt elwa yn ogystal â rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned. Drwy gael gwybodaeth leol well, mae gwirfoddolwyr Cyngor ar Bopeth yn fwy ymwybodol hefyd o'r problemau sy'n effeithio ar eu cymuned a sut i fynd i'r afael â nhw.[10]

**Y trydydd sector**

**Cwestiwn 14: Sut all y trydydd sector chwarae rhan gryfach o ran helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol? Beth all Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ei wneud i gynorthwyo hyn?**

Gall y Trydydd sector wneud cyfraniad cryfach at gynorthwyo i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol trwy rannu arferion da gyda sefydliadau eraill yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu sefydliadau i weithio i ganfod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn rhoi cyfle iddynt adnabod unigolion sy'n unig ac wedi'u hynysu'n gymdeithasol neu sydd mewn perygl o fod yn unig neu wedi'u hynysu, a'u helpu i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Byddai rhannu gwybodaeth yn helpu sefydliadau i ddatblygu cysylltiadau atgyfeirio ystyrlon hefyd fel bod unigolion yn gallu cael eu hadnabod, ond hefyd cael eu helpu gan y sefydliad mwyaf addas.

Mae'r Trydydd Sector yn gallu ymgysylltu â chymunedau anoddach eu cyrraedd yn haws ac yn fwy effeithiol hefyd na chyrff cyhoeddus am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys y ffaith bod llawer iawn o weithgaredd y Trydydd Sector yn digwydd ar lefel gymunedol. Mae llawer o bobl yn gweld rôl bwysig i'r Trydydd Sector o ran grymuso cymunedau.[11] Mae gwaith ymchwil CGGC yn pwysleisio'r rôl bwysig sydd gan sefydliadau'r Trydydd Sector o ran llywio polisi gwell. Mae'r adroddiad yn esbonio bod eu gallu i hwyluso llais dinasyddion a'r gymuned a rhoi lle canolog i bobl trwy ymgysylltu a chyd-gynhyrchu, cynllunio, trefnu a chyflenwi gwasanaethau'n gwneud eu dulliau o weithredu'n unigryw. O ganlyniad, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi Trydydd sector cryf a hygyrch trwy ddarparu cymorth ac adnoddau i alluogi ymgysylltu parhaus ag unigolion a chymunedau.

**Sgiliau a Chyflogadwyedd**

---

[10] https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Migrated_Documents/corporate/value-volunteering-may-14.pdf, p.8.
[11] https://www.wcva.org.uk/media/4697244/literature_review_e.pdf, p.6.

**Cwestiwn 15: Sut gall cyflogwyr a busnesau chwarae eu rhan i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?**

Yn ystod 2017 i 2018, cynorthwyodd Cyngor ar Bopeth dros 9,000 o bobl gyda mwy na 17,000 o broblemau'n ymwneud â chyflogaeth yng Nghymru. Tâl a hawliau oedd y prif broblemau cyflogaeth oedd yn wynebu cleientiaid (3,105 o bobl â 4,156 o broblemau), ac yna diswyddo (1,769 o bobl â 2,735 o broblemau), datrys anghydfod (1,521 o bobl â 1,950 o broblemau), a thelerau ac amodau cyflogaeth (1,500 o bobl â 1,883 o broblemau).

Roedd menywod, pobl anabl, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol (LGBT) yn wynebu rhwystrau ychwanegol i gyflogaeth. Dyma rai o'r grwpiau sydd fwyaf agored i unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, ac o ganlyniad mae'n bwysig eu bod yn cael cyfle cyfartal i ymgysylltu â'r farchnad lafur a chymdeithas yn ehangach. Mae gwaith ac incwm rheolaidd yn hanfodol i'n hymdeimlad o ddiogelwch a lles, yn ogystal â rhoi ymdeimlad o bwrpas a chyfle i ryngweithio'n rheolaidd.

Drwy weithio gyda'r Trydydd sector gallai busnesau a chyflogwyr helpu'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur i gael gwaith a rhoi cyfle iddynt wneud cynnydd. Gellir gwneud hyn trwy gynnig cefnogaeth bersonol yn seiliedig ar anghenion unigol. Er enghraifft, er mwyn cefnogi gweithwyr ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor yn y gweithle gall busnesau a chyflogwyr feddwl am ffyrdd arloesol y gallant ailgynllunio swyddi, cynllunio eu polisïau salwch, adleoli gweithwyr ac ymdrin â gwahanol fathau o gyflyrau iechyd, yn enwedig iechyd meddwl a chyflyrau newidiol neu gudd.

Dylai cyflogwyr a busnesau sicrhau bod ganddynt arferion da er budd eu gweithwyr hefyd, trwy weithredu'n fwy moesegol a chymdeithasol gyfrifol. Er enghraifft, mae'n bwysig bod gweithwyr yn ymwybodol o'u hawliau ac yn cael cyflogaeth ddiogel gydag oriau ac incwm cyson.

Dylai busnesau a chyflogwyr sicrhau bod ganddynt gysylltiadau atgyfeirio da i wasanaethau cynghori hefyd, fel y gall gweithwyr gael help gyda phroblemau ymarferol megis budd-daliadau, tai, materion cyflogaeth a dyled, a allai yn ei dro sicrhau eu bod yn gallu parhau yn eu cyflogaeth bresennol a chynnal eu hiechyd meddwl a chorfforol.

Hefyd gallai busnesau:

- Ymrwymo i'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru

- Caniatáu diwrnodau gwirfoddoli â thâl i weithwyr cyflogedig; gall cyflogwyr a busnesau annog pobl i wirfoddoli ac, yn ei dro, leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol
- Sicrhau bod cyflogwyr yn fwy gwybodus ac yn cael eu hyfforddi'n well ynghylch eu dyletswyddau o dan y gyfraith ac yn cefnogi gweithwyr yn briodol a gyda chydymdeimlad
- Sicrhau bod polisi gofal plant o fudd i'r rheini ar gontractau cyflogaeth ansafonol

**Trechu Tlodi**

**Cwestiwn 16: Beth arall all Llywodraeth Cymru ei wneud i gynorthwyo'r rheini sy'n dioddef tlodi ochr yn ochr ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?**

Rydym wedi ymateb i'r cwestiwn hwn yn ein hatebion i gwestiynau blaenorol.

**Cwestiwn 17: Beth arall allwn ni ei wneud i gynyddu cydnerthedd cymunedol a chynorthwyo cymunedau i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol?**

Rydym wedi ymateb i'r cwestiwn hwn yn ein hatebion i gwestiynau blaenorol.

**Cwestiwn 18: A ydych chi'n cytuno â'n dull arfaethedig? Os nad ydych, beth fyddech chi'n ei awgrymu fel arall?**

Rydym yn cytuno bod mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn her hirdymor ac y bydd strategaeth Llywodraeth Cymru yn helpu i gefnogi'r camau cyntaf sydd eu hangen wrth fynd i'r afael â'r problemau sy'n gymhleth ac yn effeithio ar lawer o wahanol grwpiau o bobl.

Mae sicrhau dull cyfannol yn hanfodol wrth fynd i'r afael ag achosion unigrwydd ac ynysigrwydd, dylai hyn gynnwys mynediad at wasanaethau cymunedol, gan gynnwys gwasanaethau cyngor fel elfen bwysig o'r strategaeth gyffredinol.

**Cwestiwn 19: A ydych chi'n ymwybodol o enghreifftiau o ymyriadau llwyddiannus yng Nghymru, neu'r tu hwnt, yr ydych yn credu y dylem ni fod yn eu hystyried?**

**Astudiaeth achos 1**

Mae Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf yn defnyddio model rhagnodi cymdeithasol i gefnogi unigolion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Mae gan brosiect PAT ddwy haen; iechyd meddwl gofal sylfaenol yw haen un a ariennir gan y bwrdd iechyd ac iechyd meddwl acíwt yw haen dau a ariennir gan yr awdurdod lleol. Mae'r prosiectau'n cael eu harwain gan atgyfeiriadau (a atgyfeirir gan nyrsys seiciatrig cymunedol, gweithwyr cymorth, gweithwyr cymdeithasol a meddygon) ac maent yn adlewyrchu ei gilydd. Cynhelir apwyntiadau haen un mewn canolfannau iechyd a gall apwyntiadau haen 2 ddigwydd yn unrhyw le, megis yn nhŷ'r cleient neu yn yr ysbyty, lle bynnag y bo'n gyfleus a lle mae'r cleient eisiau cael ei weld. Mae cleientiaid yn cael eu gweld gan un o ddau weithiwr achos yng Nghyngor ar Bopeth RhCT, sy'n golygu nad yw cleientiaid yn cael eu pasio o un person i'r llall ac yn gallu meithrin perthynas â'r gweithwyr achos. Hyn, yn ogystal â'r ffaith y bydd y gweithwyr achos yn mynd i weld y cleient ble bynnag y mae'n dewis, sy'n gwneud y prosiect mor llwyddiannus. Nod y prosiect yw grymuso cleientiaid yn ogystal ag ymdrin â'u problemau ymarferol trwy wneud y gorau o fudd-daliadau ac ati.

**Astudiaeth achos 2**

Ar hyn o bryd mae un swyddfa Cyngor ar Bopeth leol yn rhedeg prosiect Brocer Trydydd Sector. Mae'r Brocer Trydydd Sector wedi'i integreiddio mewn canolfannau gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'n derbyn atgyfeiriadau o'r Pwynt Mynediad Cyffredin (PAC); timau gwaith cymdeithasol a thimau ysbyty; ac unigolion a theuluoedd sydd angen cymorth yn yr ardal leol. Ar hyn o bryd mae'r Brocer Trydydd Sector yn cefnogi pobl dros 50 oed nad ydynt yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer cefnogaeth gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd o reidrwydd, gan gyflwyno'r cyfleoedd gorau sydd ar gael iddynt yn y Trydydd Sector.

Efallai y bydd angen cymorth ar unigolion i leddfu ynysu cymdeithasol; help i gynnal eu hannibyniaeth, e.e. gwasanaethau siopa; gwasanaethau seibiant ac ati. Bydd y Brocer Trydydd Sector yn cyfeirio neu'n atgyfeirio'r unigolyn at y gefnogaeth fwyaf priodol sydd ar gael iddynt yn eu hardal leol.

Mae'r Brocer yn nodi bylchau mewn gwasanaethau hefyd ac yn cysylltu grwpiau newydd gydag ymgynghorwyr ariannu i gynorthwyo yn y gwaith o'u hwyluso.